
# Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





## Ymgorffori Menter yn y Cwricwlwm

## Astudiaeth achos:
## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Y Trallwng






**Ysgol gynradd yn y canolbarth sef Welshpool CIW Primary School oedd enillydd Gwobr Eco yn Rownd Derfynol Genedlaethol Y Criw Mentrus 2021 am eu prosiect 'Be Plastic Aware Fair'. Mae ymgorffori addysg fenter wedi eu helpu i ddatblygu eu cwricwlwm oherwydd...**

**"Rhaid i'r ysgolion yng Nghymru baratoi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol – dinasyddion Cymru a dinasyddion y byd, ac i fod yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith."**

**“Mae ymgorffori addysg fenter wedi galluogi ein disgyblion i gyflawni hyn i gyd; trwy ddarparu cyfleoedd iddynt fod yn fentrus, yn greadigol, ac yn arloesol, i fentro ac i ddatrys problemau, i gyd mewn cyd-destun byd go iawn.”**

Agorodd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Y Trallwng ym mis Medi 2017 ar ôl uno pedwar lleoliad. Symudodd yr ysgol i safle newydd yn Ionawr 2021, ac mae 297 o ddisgyblion ar y gofrestr sy’n cynnwys 32 yn narpariaeth meithrin yr ysgol ar gyfer plant 3 a 4 mlwydd oed. Mae’r ysgol hefyd yn cynnal cyfleuster Dechrau’n Deg, gan wasanaethu cymuned gymharol ddifreintiedig, ble mae oddeutu traean o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol rhad ac am ddim, sydd ymhell uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan oddeutu 39% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, a gynhelir mewn 3 dosbarth ychwanegol, dau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol a Rhaglen Anogaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae mentergarwch yn un o grwpiau ‘Llais y Disgybl’ yr ysgol. Mae dau gynrychiolydd o bob dosbarth yn mynychu cyfarfodydd hanner tymor sy’n para oddeutu 30 munud. Mae oddeutu ugain o blant rhwng 4-11 oed yn y grŵp, gyda chefnogaeth athro a dau CALU. Arweinir y cyfarfodydd gan y Cadeirydd gyda chefnogaeth Is-gadeirydd, trysorydd, ac ysgrifennydd sy’n cofnodi’r cyfarfodydd, ac yn eu e-bostio at y Pennaeth. Trafodir syniadau a phleidleisir i gytuno ar y prosiect nesaf. Yna mae’r plant yn trafod eu syniad gyda’u dosbarth ac yn aml yn gwneud ymchwil pellach yn eu hamser eu hunain.

**“Rwyf wrth fy modd gyda’r Criw Mentrus! Rwyf wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd o ddosbarthiadau eraill. Mae bod yn Gadeirydd yn hwyl gan fy mod yn cael rhedeg y cyfarfodydd a helpu i wneud penderfyniadau pwysig.”**
Cadeirydd y Criw Mentrus (10 oed)

Y prosiect Menter diweddaraf oedd gwneud a gwerthu cardiau Dydd San Ffolant. Ar ôl cynnal arolwg i ddarganfod faint o blant fyddai â diddordeb mewn prynu cardiau, mynychodd y disgyblion glwb ar ôl ysgol a gynhaliwyd dros bythefnos, lle buont yn dylunio ac yn cynhyrchu cardiau gan ddefnyddio adnoddau’r ysgol, a phosteri i’w hysbysebu. Gwerthwyd y cardiau gan y Tîm Menter am £1 yr un yn ystod amseroedd egwyl. Ar ôl i’r plant ysgrifennu eu cardiau a’u postio mewn bocs, dosbarthwyd y cardiau gan y Tîm Menter ar Ddydd San Ffolant.
















Roedd y Tîm Menter yn frwdfrydig ac yn cymryd rhan lawn yn y gweithgaredd gan fod pob oedran yn gallu cyfranogi. Cydweithiodd pawb fel tîm. Er enghraifft, yn y clwb ar ôl ysgol roedd y disgyblion hŷn yn gallu defnyddio eu menter a gweithio'n annibynnol heb oruchwyliaeth oedolyn, gan helpu'r plant iau i ddylunio a chreu eu cardiau. Gwerthwyd y cardiau i gyd, a chodwyd £74.00. Defnyddir yr arian hwn i brynu offer maes chwarae, a hefyd bagiau o gloron tatws i'w plannu ar gyfer prosiect yn y dyfodol.

Mae'r Tîm Menter yn gweithio yn ogystal ar brosiect tymor hwy a ddechreuodd pan fu'r plant yn casglu hadau planhigyn Ceiniog Arian. Heuwyd yr hadau yma a'u trawsblannu i botiau mwy. Mae'r plant wedi meithrin yr eginblanhigion dros fisoedd y gaeaf ac wedi ysgrifennu at y Cyngor Tref i ofyn a oes modd gwerthu'r planhigion yn y dref ar ddiwrnod marchnad. Bydd y plant hefyd yn addurno jariau jam, torchau drws ac addurniadau bwrdd gan ddefnyddio codennau hadau planhigion Ceiniog Arian i'w gwerthu mewn digwyddiad yn y dyfodol. Mae ein Tîm Menter yn teimlo'n angerddol am gynaliadwyedd ac yn ystyried prosiectau gwyrdd lle bo modd gan eu bod yn deall pwysigrwydd hyrwyddo cynaliadwyedd ar gyfer cenedlaethau o ddisgyblion y dyfodol.

Mae'r dull hwn wedi cynorthwyo i ymgorffori addysg fenter ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, roedd y prosiect hwn yn cwmpasu ystod o gysylltiadau cwricwlwm, yn benodol Iaith, llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiannol a TGCh i ddylunio, cynhyrchu a hyrwyddo eu cardiau, a Mathemateg a rhifedd, er enghraifft, roedd y disgyblion yn gallu cyllidebu'n gywir, a defnyddio arian wrth roi newid i'w cyfoedion.

Mae cynnal wythnos Fenter flynyddol yn ffordd wych arall o gynnwys pob plentyn, athro, rhiant, a'r gymuned ehangach. Yn Ysgol Gynradd Y Trallwng mae pob dosbarth yn penderfynu ar weithgaredd menter i godi arian i'w dosbarth. Mae'r plant yn cynhyrchu pethau trwy'r wythnos ac yna'n cynnal ffair ar ddiwedd yr wythnos i werthu eu cynnyrch.

Mae'r Tîm Menter yn cynnal arolygon gyda disgyblion eraill, yn hysbysebu digwyddiadau ar-lein, a gyda phosteri o amgylch yr ysgol, ac yn y gymuned leol pan fo'n briodol. Mae ysgrifennu llythyrau at fusnesau lleol a rhieni hefyd yn cynorthwyo i gadw costau adnoddau mor isel â phosibl. Mae'r disgyblion hefyd yn ysgrifennu am eu prosiectau menter ar gyfer cylchlythyrau'r ysgol lle maent yn hysbysu'r rhieni o'r elw a wneir yn y digwyddiadau, sut y defnyddir yr arian a godir a sut y bydd o fudd i'r ysgol.

Mae'r dull hwn o ymgorffori addysg fenter wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gan gyflwyno gweithgareddau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm drwy gydol yr wythnos a dros weddill y tymor. Wrth i bob grŵp oedran gymryd rhan yn y gweithgareddau, mae disgyblion yn dechrau ymddiddori yn ifanc ac yn dysgu am fenter trwy wylio a helpu eu cyfoedion hŷn.

**"Mae'r Criw Mentrus wedi rhoi'r cyfle i'n plant ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol wrth ddatblygu'r pedwar diben fel dinasyddion uchelgeisiol mentrus a chreadigol."**
Pennaeth Dros Dro

**"Mae'n fraint cael bod yn rhan o ysgol sy'n frwd dros ymgorffori Mentergarwch yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae mentergarwch wedi galluogi ein plant i ddatblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog. Credwn fod ysgogi diddordeb disgyblion o oedran cynnar yn eu helpu yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol oherwydd y sgiliau y byddant yn eu mabwysiadu, er enghraifft, gallu cymdeithasol cynyddol, hyder i ymddiried yn eu sgiliau menter a meddwl yn feirniadol"**
Arweinydd Menter






Cyswllt: Catrin Evans
Ebost: EvansC814@hwbcymru.net

*Ydych chi'n cymryd rhan mewn mentrau yn eich ysgol yn barod neu hoffech chi weld sut mae rhoi cynnig arni? I gael digon o ysbrydoliaeth, syniadau a rhagor o astudiaethau achos sy'n dangos sut y gallech ddefnyddio menter fel modd i wella pob agwedd ar y cwricwlwm cynradd, ewch i [www.criwmentrus.com](http://www.criwmentrus.com) neu cysylltwch ag un o'r tîm am gymorth.*

Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

Busnes Cymru | Business Wales

Noddwr Cyswllt
Associate Sponsor
NatWest Cymru